**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 16 Hydref 2023 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd H Lawson (Is-gadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Baker | S E Keeton | |

**Hefyd yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A S Lewis | Cyd-ddirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Aspland | Rheolwr y Prosiect |
| Mark Barrow | Rheolwr y Cerbydlu |
| Matthew Bowyer | Arweinydd Grŵp Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd |
| Ioan Brannigan | Swyddog Strategaeth Cludiant |
| Stuart Davies | Pennaeth Priffyrdd a Chludiant |
| Phillip John | Rheolwr y Prosiect |
| Rachel Lewis | Rheolwr y Prosiect |
| Kieron O'Carroll | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jane Richmond | Rheolwr Prosiect Strategol Newid yn yr Hinsawdd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R Fogarty, D H Hopkins, A J O'Connor, D Phillips, S J Rice a/ac A H Stevens

---

**20 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**21 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion blaenorol y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur a gynhaliwyd ar 4 Medi 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 22 Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy Gorfforaethol 2020-2030.

Cyflwynodd Matthew Bowyer, Arweinydd Grŵp Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd dros dro adroddiad a oedd yn ceisio barn a sylwadau'r Pwyllgor ar Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ddrafft 2020-2030.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cefndir, polisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chyd-destun strategol; gweledigaeth, nodau ac amcanion; a sut byddai'r cyngor yn cyflawni hyn.

Amlinellwyd bod y cynllun gweithredu yn Atodiad A yn darparu map ffordd ar gyfer bodloni'r amcanion allweddol a amlinellir yn y strategaeth. Roedd yn diffinio'r fframwaith ar gyfer cyflawni'r canlyniadau sero net drwy nodi mesurau ac egwyddorion a all achosi newid ymddygiad o ran trafnidiaeth ar dair lefel:

- Corfforaethol - mesurau ac egwyddorion sy'n berthnasol ar draws y cyngor; h.y. ar draws yr holl adrannau a staff.
- Adrannol - mesurau ac egwyddorion y dylai pob adran o'r cyngor eu mabwysiadu wrth ddatblygu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ac isadeiledd sy'n berthnasol i'w swyddogaeth benodol.
- Penodol i drafnidiaeth - mesurau ac egwyddorion penodol i'w defnyddio gan ddwy adran y cyngor sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am gynllunio a chyflwyno a darparu trafnidiaeth (h.y. yr Adran Priffyrdd a Chludiant a'r Uned Cludiant Canolog).

Ychwanegwyd y byddai'r Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy yn cael ei hymgorffori yng Nghynllun Corfforaethol y cyngor a'r broses pennu cyllideb. Byddai'n cael ei gyfathrebu i holl staff y cyngor drwy'r sianeli arferol, gan gynnwys gwefan y cyngor, cyfryngau cymdeithasol ac mewn sesiynau briffio staff. Bydd gan benaethiaid adrannau, ar y cyd ag arweinwyr tîm, gyfrifoldeb i gyflwyno'r strategaeth yn eu hadrannau. Byddai arolwg teithio blynyddol hyn cael ei gynnal ar draws y cyngor i fonitro effeithiolrwydd rhoi'r strategaeth ar waith a bydd yn cael ei ddefnyddio i fireinio neu ddiweddaru'r strategaeth yn ôl yr angen.

Gwnaeth y Cynghorydd A S Lewis, Cyd-ddirprwy Arweinydd/Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau sylwadau o blaid yr adroddiad a thynnodd sylw at y cynnydd i wella’r isadeiledd gwefru trydan ar gyfer cerbydau’r cyngor a sut roedd y cyngor hefyd yn monitro cynnydd cerbydau hydrogen fel dewis amgen i gerbydau trydan.  Ychwanegodd y byddai staff a sefydliadau partner yn rhan o'r strategaeth yn y dyfodol.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol iddynt

**Penderfynwyd** nodi barn y Pwyllgor ar y Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r cynllun gweithredu drafft ac anfon fersiwn derfynol yr adroddiad at y Cabinet i'w gymeradwyo.

## 23 Cynllun Gwaith.

Cyflwynodd yr Is-gadeirydd adroddiad diweddaredig am y Cynllun Gwaith.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.24 pm

**Cadeirydd**